FFURFLEN RHW15

## HYSBYSIAD O WAHARDD DROS DRO: CONTRACT SAFONOL Â CHYMORTH

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord cymunedol neu elusen gofrestredig i roi hysbysiad i ddeiliad contract safonol â chymorth adael yr annedd dros dro o dan adran 145(4) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.*

*Rhaid rhoi'r ffurflen hon i ddeiliad y contract y mae'n ofynnol iddo adael yr annedd ar yr adeg pan fo'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol iddo adael neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.*

| **Rhan A: Landlord** | **Rhan B: Deiliad y Contract** |
|---|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: | Enw: |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Hysbysiad o Wahardd Dros Dro** | |
|---|---|
| Mae'r landlord yn credu'n rhesymol eich bod chi, ddeiliad y contract, wedi gwneud un neu ragor o'r gweithredoedd a ganlyn:<br><br>*Ticiwch fel y bo'n gymwys.* | |
| ☐ | Defnyddio trais yn erbyn unrhyw berson yn yr annedd |
| ☐ | Gwneud rhywbeth yn yr annedd sy'n creu risg o niwed sylweddol i unrhyw berson |
| ☐ | Ymddwyn yn yr annedd mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar allu preswylydd arall mewn llety â chymorth a ddarperir gan y landlord i fanteisio ar y cymorth a ddarperir mewn cysylltiad â'r llety hwnnw |
| Dyma fanylion y weithred neu'r gweithredoedd:<br>*Nodwch y manylion yn glir.* | |

## Rhan D: Hysbysiad o Wahardd Dros Dro (parhad)

Mae'r landlord yn ei gwneud yn ofynnol i chi, ddeiliad y contract, adael yr annedd dros dro ar [*amser a dyddiad y gwaharddiad*] …………………………………… am y cyfnod a bennir isod.

Cyfnod y gwaharddiad: [*nifer yr oriau a'r munudau hyd at uchafswm o 48 awr*] ……………………

Cewch ddychwelyd i'r annedd ar [*amser a dyddiad dychwelyd*] …………………………………………

Ni chaiff y landlord ddefnyddio'r pŵer i'ch eithrio fwy na thair gwaith mewn unrhyw gyfnod o chwe mis.

Dyma'r gwaharddiad cyntaf mewn cyfnod o chwe mis **neu** Dyma'r ail gyfnod gwahardd/Dyma'r trydydd cyfnod gwahardd [*dilëwch fel y bo'n gymwys*] yn y cyfnod a ddechreuodd ar [*dyddiad y gwaharddiad cyntaf*] ……………………………

*Sylwer: Dylai'r landlord ddarparu gwybodaeth i ddeiliad y contract a fydd yn ei gynorthwyo i gael mynediad at Wasanaethau Cyngor ar Ddigartrefedd a hosteli/llochesau lleol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gan y landlord fod mewn fformat sy'n briodol i ddeiliad y contract.*

## Rhan E: Llofnod

| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran: | Dyddiad **ac amser** y llofnod: |
|---|---|
| …………………………… | …………………………… |